WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – **Cyngor Sir Ddinbych**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1713A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Sir Ddinbych fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Gareth Evans, Dave Wilson a Jeremy Evans dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor mewn sefyllfa ariannol gymharol gryf, ond mae angen iddo gryfhau ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a rheoli peth gorwariant gan wasanaethau i gefnogi cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol

Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

Nid yw Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn nodi sut y bydd yn cwrdd â'r diffyg cronnol rhagamcanol o £30 miliwn rhwng 2020-21 a 2022-23 7

Er bod y Cyngor wedi tanwario'i gyllideb refeniw ar y cyfan yn 2017-18 a 2018-19, cafodd gorwariannau sylweddol gan wasanaethau eu gwrthbwyso gan danwariannau mewn meysydd eraill, a rhagwelir y bydd cyllideb refeniw 2019-20 yn cael ei gorwario 8

Mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio er bod ei gyllid yn fwy o her wrth i'r cydbwysedd symud o gyflawni mesurau effeithlonrwydd i newid mewn gwasanaethau sy'n cael mwy o effaith 10

Mae'r Cyngor yn defnyddio'i gronfeydd wrth gefn yn strategol, yn cadw balansau iach, ac mae rhai cronfeydd wrth gefn pwysig a glustnodwyd bron wedi'u defnyddio'n llawn fel a fwriadwyd 11

Mae incwm y Cyngor o'r Dreth Gyngor wedi bod yn uwch na'r cyfartaledd yn hanesyddol ac mae cyfraddau casglu'n dda 12

Mae gan y Cyngor ddull darbodus o fenthyca ac nid yw'n benthyca i ariannu buddsoddiadau masnachol 13

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Roedd y prosiect yn ceisio asesu cynaliadwyedd sefyllfa ariannol cynghorau yn y tymor byr a chanolig.

2 Roedd hyn yn cynnwys ffocws ar strategaeth ariannol pob cyngor yn ogystal ag adolygu ‘dangosyddion’ ariannol o sefyllfa ariannol pob cyngor mewn perthynas â’r canlynol:

- Perfformiad yn erbyn y gyllideb;
- Cyflawni cynlluniau arbedion;
- Defnyddio cronfeydd wrth gefn;
- Y dreth gyngor, a
- Benthyca.

#### Arddangosyn 1: ynglŷn â’r Cyngor

Mae’r arddangosyn hwn yn nodi peth gwybodaeth gefndir am gyllideb refeniw net y Cyngor, nifer y staff y mae’n eu cyflogi a gwerth ei asedau sefydlog



**Roedd cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2019-20 yn £199m**



**Mae’r Cyngor yn cyflogi tua 4,300 o bobl**




**Roedd asedau sefydlog y Cyngor ar 31 Mawrth 2019 yn £537m**

Ffynhonnell: Datganiadau Cyfrifon archwiliedig Cyngor Sir Ddinbych 2018-19 ac Adroddiad Cymeradwyo Cyllideb 2019-20 i’r Cyngor, 29 Ionawr 2019

3 Fe gynhaliom ni’r asesiad hwn am ein bod wedi adnabod cynaliadwyedd ariannol fel risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau diweddar rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a’r duedd gyffredinol bod adnoddau ar gyfer llywodraeth leol yn lleihau ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau.

Arddangosyn 2: ffynonellau refeniw'r Cyngor

Mae'r siart cylch isod yn dangos faint o arian gafodd y Cyngor o wahanol ffynonellau ariannu yn ystod 2018-19




Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon archwiliedig Cyngor Sir Ddinbych 2018-19

4 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Tachwedd 2019.

## Yr hyn a ganfuom

5 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: mae'r Cyngor mewn sefyllfa ariannol gymharol gryf, ond mae angen iddo gryfhau ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a rheoli peth gorwariant gan wasanaethau i gefnogi cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- nid yw Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn nodi sut y bydd yn cwrdd â'r diffyg cronnol rhagamcanol o £30 miliwn rhwng 2020-21 a 2022-23;
- er bod y Cyngor wedi tanwario'i gyllideb refeniw ar y cyfan yn 2017-18 a 2018-19, cafodd gorwariannau sylweddol gan wasanaethau eu gwrthbwyso gan danwariannau mewn meysydd eraill, a rhagwelir y bydd cyllideb refeniw 2019-20 yn cael ei gorwario;

- mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio er bod ei gyllid yn fwy o her wrth i'r cydbwysedd symud o gyflawni mesurau effeithlonrwydd i newid mewn gwasanaethau sy'n cael mwy o effaith;
- mae'r Cyngor yn defnyddio'i gronfeydd wrth gefn yn strategol, yn cadw balansau iach, ac mae rhai cronfeydd wrth gefn pwysig a glustnodwyd bron wedi'u defnyddio'n llawn fel a fwriadwyd;
- mae incwm y Cyngor o'r Dreth Gyngor wedi bod yn uwch na'r cyfartaledd yn hanesyddol ac mae cyfraddau casglu'n dda; ac
- mae gan y Cyngor ddull darbodus o fenthyca ac nid yw'n benthyca i ariannu buddsoddiadau masnachol.

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor mewn sefyllfa ariannol gymharol gryf, ond mae angen iddo gryfhau ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a rheoli peth gorwariant gan wasanaethau i gefnogi cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol

### Nid yw Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn nodi sut y bydd yn cwrdd â'r diffyg cronnol rhagamcanol o £30 miliwn rhwng 2020-21 a 2022-23

#### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

6 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod y lefel debygol o gyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau o ran cyllid a fu'n ddiweddar ac a ragwelir ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig nodi sut y mae'n bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn enwedig sut y bydd yn llenwi bylchau a ragwelir yn y cyllid.

#### Yr hyn a ganfuom

7 Canfuom nad yw Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn nodi sut y bydd yn cwrdd â'r diffyg cronnol rhagamcanol o £30 miliwn rhwng 2020-21 a 2022-23. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:


- Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a gyhoeddwyd gan y Cyngor ar gyfer 2019-2023 yn tybio na fydd cynnydd yn y Grant Cynnal Refeniw ac Ardrethi Annomestig Cenedlaethol yn 2020-21 ond mae'n adlewyrchu gostyngiadau o 1.5% yn 2021-22 a 2022-23, a chodiadau o 3.8% yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2020-21, 2021-22 a 2022-23. Mae hyn yn nodi incwm i'r Cyngor o ryw £199 miliwn am y tair blynedd olaf heb unrhyw ddefnydd wedi'i gynllunio o gronfeydd wrth gefn.
- Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn tybio, gyda chodiadau mewn cyflogau a chwyddiant a phwysau ychwanegol ar wasanaethau, bod diffyg cyllid dros y tair blynedd rhwng 2020 a 2023 o bron i £30 miliwn.
- Hyd yma, mae'r Cyngor wedi ymdopi â'i lefelau cyllid is heb doriadau sylweddol mewn gwasanaethau ond mae'n sylweddoli bod y dull hwn yn anghynaliadwy. Mae wedi sefydlu 'Bwrdd Ail-lunio Cyllideb y Cyngor' i osod y cyfeiriad strategol sy'n pennu siâp a maint y Cyngor ar ddiwedd 2022-23.
- Mae'r Cyngor hefyd yng nghamau cynnar datblygu strategaeth 'masnacheiddio' y mae'n gobeithio y bydd yn helpu'r Cyngor i weithredu'n

fwy effeithlon ac effeithiol. Er bod awch am gydweithio ac ailfodelu gwasanaethau, ar hyn o bryd nid oes cynigion pendant i ymateb i faint yr her a chyfrannu at gynaliadwyedd a chydnerthedd ariannol.

- Ar hyn o bryd mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn anghyflawn. Er ei bod yn nodi'r bwlch rhwng cyllid tybiedig a gwariant tebygol, nid yw'n adlewyrchu sut y bydd gwariant yn newid dros y blynyddoedd nesaf nes bod Bwrdd Ail-lunio Cyllideb y Cyngor yn cwblhau ei waith a'i bod yn glir sut y bydd y strategaeth fasnacheiddio'n cyfrannu at gau'r bwlch.

### Arddangosyn 3: bwlch o ran cyllid a ragamcanir

Mae'r graff canlynol yn dangos y bwlch o ran cyllid y mae'r Cyngor wedi'i adnabod ar gyfer eleni, a'r tair blynedd ganlynol.




Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych – Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2019-2023 a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2019

## Er bod y Cyngor wedi tanwario'i gyllideb refeniw ar y cyfan yn 2017-18 a 2018-19, cafodd gorwariannau sylweddol gan wasanaethau eu gwrthbwyso gan danwariannau mewn meysydd eraill, a rhagwelir y bydd cyllideb refeniw 2019-20 yn cael ei gorwario

### Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

8 Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau y cynlluniwyd ar eu cyfer. Mae Cyngor sy'n methu â rhagweld gwariant yn gywir a chynllunio'n gywir ar ei gyfer yn wynebu risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a allai beryglu'r gallu

i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

## Yr hyn a ganfuom

9 Er bod y Cyngor wedi tanwario'i gyllideb refeniw ar y cyfan yn 2017-18 a 2018-19, cafodd gorwariannau sylweddol gan wasanaethau eu gwrthbwyso gan danwariannau mewn meysydd eraill, a rhagwelir y bydd cyllideb refeniw 2019-20 yn cael ei gorwario. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Yn 2017-18, profodd y Cyngor amrywiadau mawr mewn gwariant yn erbyn cyllidebau refeniw ac fe danwariodd ei gyllideb ar y cyfan o oddeutu £1.2 miliwn. Cafodd gorwariannau sylweddol mewn Gwasanaethau Cymorth Cymunedol, Gwasanaethau Addysg a Phlant a Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd eu gwrthbwyso gan arbedion mewn gwasanaethau eraill, yn anad dim Ysgolion a Gwasanaethau Corfforaethol a oedd â thanwariant o £0.7 miliwn a £0.9 miliwn yn y drefn honno.
- Yn 2018-19, fe barhaodd yr amrywiadau mawr ac fe danwariodd y Cyngor ei gyllideb refeniw ar y cyfan o oddeutu £0.5 miliwn. Roedd gorwariannau sylweddol mewn Gwasanaethau Cymorth Cymunedol, Gwasanaethau Addysg a Phlant a Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd yn gyfanswm o oddeutu £4.3 miliwn.
- Yn ystod 2018-19, fe ddyrannodd y Cyngor gyllid ychwanegol o gronfeydd wrthgefn wedi'u clustnodi a gynlluniwyd o oddeutu £2.6 miliwn gyda hynny'n arwain at orwariant heb ei gynllunio ar y cyfan yn y gwasanaethau hyn o oddeutu £1.7 miliwn. Cafodd hyn ei wrthbwyso gan danwariannau mewn gwasanaethau eraill a oedd yn gyfanswm o oddeutu £0.3 miliwn ac arbedion corfforaethol o oddeutu £2.7 miliwn a oedd yn cynnwys amrywiant rhwng y cyfraddau adennill cyfraniadau pensiwn amcangyfrifedig a gwirioneddol. Fe danwariodd ysgolion eu cyllidebau o oddeutu £0.2 miliwn.
- Mae adroddiad monitro'r gyllideb ar gyfer mis Rhagfyr 2019 yn rhagweld gorwariant ar y cyfan o bron i £1.7 miliwn ar 31 Mawrth 2020, gan ddynodi bod y gyllideb yn dal heb ei chysoni â gweithgarwch gweithredol. Nodir gorwariannau rhagamcanol mewn Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (£0.7 miliwn), Gwasanaethau Addysg a Phlant (£1.4 miliwn), Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (£0.7 miliwn) a Gwasanaethau Priffyrdd, Cyfleusterau ac Amgylcheddol (£0.5 miliwn).

## Arddangosyn 4: swm y gorwariant/tanwariant yn berthynol i gyfanswm y gyllideb refeniw net

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu'r tanwariant ar gyfer cyllideb refeniw net y Cyngor ar y cyfan am y ddwy flynedd ddiwethaf a hefyd y flwyddyn hyd yma o ran y sefyllfa ar 30 Tachwedd 2019.

| | Cyllideb Wreiddiol y gyllideb refeniw net | Alldro Gwirioneddol y gyllideb refeniw net | Swm y gwarged/ gorwariant ar y cyfan | Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb refeniw net |
|---|---|---|---|---|
| 2017-18 | £189.3m | £188.1m | Gwarged o £1.2m | Gwarged o 0.6% |
| 2018-19 | £194.4m | £193.9m | Gwarged o £0.5m | Gwarged o 0.3% |
| 2019-20 | £198.5m | £200.2m | Gorwariant o £1.7m | Gorwariant o 0.9% |

Ffynhonnell: Adroddiadau Alldro Terfynol 2017-18 a 2018-19 a'r Adroddiad Cyllid i'r Cabinet, 17 Rhagfyr 2019

## Mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio er bod ei gyllid yn fwy o her wrth i'r cydbwysedd symud o gyflawni mesurau effeithlonrwydd i newid mewn gwasanaethau sy'n cael mwy o effaith

### Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

10 Mae'r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny wedyn, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy'n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a lle nad yw'n ofynnol i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu'r risg naill ai na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor, neu o ddatrysiadau 'byrdymor' nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

### Yr hyn a ganfuom

11 Mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio er bod ei gyllid yn fwy o her wrth i'r cydbwysedd symud o gyflawni mesurau effeithlonrwydd i newid mewn gwasanaethau sy'n cael mwy o effaith. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Yn 2018-19 fe gymeradwyodd y Cyngor arbedion a oedd yn gyfanswm o £4.6 miliwn a'r cyfanswm hwnnw wedi'i rannu rhwng arbedion o £0.4 miliwn, mesurau effeithlonrwydd o £1.2 miliwn, arbedion corfforaethol o £1 filiwn a newidiadau i'r ddarpariaeth isafswm refeniw o £2 filiwn. Roedd llawer o'r arbedion a mesurau effeithlonrwydd hyn ar raddfa gymharol fach ac mae'r Cyngor yn dweud iddo gyrraedd y targed arbedion ar y cyfan.
- Yn 2019-20 roedd y gyllideb refeniw yn tybio arbedion o £5.7 miliwn fel a ganlyn; arbedion corfforaethol (£0.5 miliwn), arbedion Ysgolion (£1.3 miliwn) a mesurau effeithlonrwydd ac arbedion gwasanaethau (£3.9 miliwn).

- Ym mis Rhagfyr 2019, nododd y Cyngor y byddai angen i £0.6 miliwn o'r arbedion hyn (bron i 11%) gael eu hariannu gan y Cyfrif Wrth Gefn Cyflawni Arbedion[1]. Felly mae'r Cyngor yn disgwyl cyflawni bron i 89% o'i arbedion arfaethedig yn 2019-20.

### Arddangosyn 5: arbedion a gyflawnwyd yn ystod 2018-19 fel canran o'r arbedion wedi'u cynllunio

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed trwy arbedion wedi'u cynllunio yn ystod 2018-19 a faint o hyn y gwnaeth ei arbed mewn gwirionedd.

| £4.6m | £4.6m | £0 | 100% |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr arbedion wedi'u cynllunio | Arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd | Arbedion wedi'u cynllunio nas cyflawnwyd | Canran yr arbedion a gyflawnwyd |

Ffynhonnell: Adroddiad Cyllid i'r Cabinet, 25 Medi 2018 ac adroddiad Alldro Terfynol 2018-19.

## Mae'r Cyngor yn defnyddio'i gronfeydd wrth gefn yn strategol, yn cadw balansau iach, ac mae rhai cronfeydd wrth gefn pwysig a glustnodwyd bron wedi'u defnyddio'n llawn fel a fwriadwyd

### Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

12 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn rhwyd ddiogelwch bwysig i ategu cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig i ariannu mentrau 'buddsoddi i arbed' sydd wedi'u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau hefyd. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb refeniw sy'n arwain at ostyngiadau ym malansau eu cronfeydd wrth gefn yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

[1] Cyfrif wrth gefn yn y gyllideb sylfaen a gedwir yn gorfforaethol nes bod ei angen i ariannu diffyg cyflawni mesurau effeithlonrwydd yn ystod y flwyddyn yw'r Cyfrif Wrth Gefn Cyflawni Arbedion


## Yr hyn a ganfuom

13 Mae'r Cyngor yn defnyddio'i gronfeydd wrth gefn yn strategol, yn cadw balansau iach, ac mae rhai cronfeydd wrth gefn pwysig a glustnodwyd bron wedi'u defnyddio'n llawn fel a fwriadwyd. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Mae'r Cyngor wedi cynnal lefel iach o gronfeydd wrth gefn ar y cyfan, gan ddefnyddio'r rhain mewn ffordd wedi'i chynllunio fel rhan o'i reolaeth ariannol. Ar 31 Mawrth 2019, roedd gan y Cyngor oddeutu £38 miliwn o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy.
- Fe leihaodd cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi Lliniaru'r Gyllideb o £3.6 miliwn ar 31 Mawrth 2018 i £3.1 miliwn ar 31 Mawrth 2019 a bwriedir iddi leihau ymhellach i £1.1 miliwn erbyn 31 Mawrth 2020.
- Fe ostyngodd balansau ysgolion o £0.3 miliwn ar 31 Mawrth 2018 i ddiffyg o £0.2 miliwn ar 31 Mawrth 2019. Mae'r sefyllfa wedi dirywio ymhellach yn ystod 2019-20 gyda'r Cyngor yn rhagamcanu, ym mis Tachwedd 2019, ddiffyg o £1.3 miliwn i gael ei gario ymlaen i mewn i 2020-21.
- Fe leihaodd y gronfa wrth gefn Gofal Cymdeithasol i Oedolion, a sefydlwyd i roi cydnerthedd i'r gwasanaeth ac i ymdopi â phwysau ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn, o £1.6 miliwn ar 31 Mawrth 2018 i £0.8m ar 31 Mawrth 2019.

## Arddangosyn 6: swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol, 2018-19

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2018-19 o'i gymharu â'i gyllideb refeniw net ar gyfer yr un flwyddyn.



| **£194.4m** | **£38.0m** | **19.6%** |
| --- | --- | --- |
| Cyllideb Refeniw Net | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o'r Gyllideb Refeniw Net |

Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon archwiliadau Cyngor Sir Ddinbych 2018-19.

# Mae incwm y Cyngor o’r Dreth Gyngor wedi bod yn uwch na’r cyfartaledd yn hanesyddol ac mae cyfraddau casglu’n dda

## Pam fod cyfraddau casglu’r dreth gyngor yn bwysig

14 Bydd methu â chasglu swm y dreth gyngor sy’n ddyledus i’r Cyngor yn arwain at lai o incwm. Gall hyn yn ei dro gynyddu’r pwysau ariannol ar y Cyngor a’i gwneud yn ofynnol iddo wneud arbedion ychwanegol. Er nad y dreth gyngor yw ffynhonnell cyllid fwyaf cynghorau yng Nghymru, mae’n dal i fod yn ffynhonnell incwm allweddol.

## Yr hyn a ganfuom

15 Mae incwm y Cyngor o’r Dreth Gyngor wedi bod yn uwch na’r cyfartaledd yn hanesyddol ac mae cyfraddau casglu’n dda. Daethom i’r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Y Cyngor sydd â’r swm Treth Gyngor band “D” 7fed uchaf yng Nghymru ac mae’r Dreth Gyngor yn 17% o’i gyfanswm incwm. Er bod y Cyngor yn aml wedi cynyddu ei Dreth Gyngor yn ôl canran is na chynghorau eraill, mae’n gyson wedi creu incwm gwirioneddol uwch na’r rhan fwyaf o gynghorau eraill yng Nghymru.
- Fe gasglodd y Cyngor 97.7% o’r Dreth Gyngor yn 2018-19 ac mae ei lefel ôl-ddyledion Treth Gyngor wedi aros ar tua £2.5 miliwn am y pedair blynedd ddiwethaf, gyda chyfradd is na’r cyfartaledd o ran dileu ôl-ddyledion.

## Arddangosyn 7: cyfraddau casglu’r dreth gyngor

Mae’r arddangosyn hwn yn dangos y ganran o’r dreth gyngor a oedd yn ddyledus a gasglwyd gan y Cyngor yn ystod 2018-19



Roedd yr arian a gasglwyd o’r Dreth Gyngor ar 31 Mawrth 2019 yn £51.3m (97.7%) o’i gymharu â debyd casgladwy o £52.5m

Ffynhonnell: statscymru.llyw.cymru

## Mae gan y Cyngor ddull darbodus o fenthyca ac nid yw’n benthyca i ariannu buddsoddiadau masnachol

### Pam ei bod yn bwysig cynnal lefelau benthyca cynaliadwy

16 Gall benthyca fod yn ffynhonnell cyllid werthfawr, er enghraifft i ariannu prosiectau cyfalaf ar raddfa fawr megis ysgolion neu ganolfannau hamdden newydd. Fodd bynnag, gall cost ad-dalu arian a fenthyciwyd gan gynnwys costau llog gael effaith hirdymor ar gyllidebau refeniw parhaus. Mae cynghorau sy’n methu â tharo cydbwysedd priodol rhwng manteision a chostau benthyca ar y naill law a’u cyllidebau refeniw cyfredol a rhagamcanol ar y llaw arall yn wynebu risg o leihau swm y cyllid sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau. Mae benthyca i ariannu gweithgarwch masnachol yn cynnig y potensial i greu incwm ychwanegol i ariannu gwasanaethau’r cyngor; fodd bynnag, gall hefyd ddwyn risgiau sylweddol a fyddai’n gysylltiedig ag unrhyw weithgarwch masnachol.

### Yr hyn a ganfuom

17 Mae gan y Cyngor ddull darbodus o fenthyca ac nid yw’n benthyca i ariannu buddsoddiadau masnachol. Daethom i’r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Fe gymeradwyodd y Cyngor ei Ddatganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2019-20 a’i Ddangosyddion Darbodus 2019-20 i 2021-22 ym mis Chwefror 2019. Mae’n bwriadu benthyca £45 miliwn dros y tair blynedd nesaf ar raddfa ostyngol - £26 miliwn, £15 miliwn a £4 miliwn. Bydd yn gwneud hyn yn bennaf i ariannu ei raglen ysgolion yr 21ain ganrif. Mae hefyd wedi benthyca 100% o’r cyllid ar gyfer ei gynllun amddiffyn rhag llifogydd y mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ad-dalu 75% ohono trwy’r Grant Cynnal Refeniw dros y 25 mlynedd nesaf. Mae’r Cyngor yn dal i gael budd o gyfraddau llog isel cyfredol.
- Nid yw’r Cyngor yn benthyca i ariannu buddsoddiadau masnachol.


Arddangosyn 8: Arian a fenthyciwyd gan y Cyngor

Mae’r arddangosyn isod yn dangos cyfanswm yr arian y mae’r Cyngor wedi’i fenthyca i ariannu buddsoddiadau masnachol, yn ogystal â chost yr holl fenthyciadau sydd gan y Cyngor fel cyfran o’i gyllideb refeniw net.



**£0m**

Swm y benthyciadau i ariannu buddsoddiadau masnachol



**6%**

Cost cyfanswm y benthyciadau fel cyfran o’r gyllideb refeniw net 2018-19

Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon archwiliedig Cyngor Sir Ddinbych 2018-19.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru